# DEDDF LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2015

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

#### *Adrannau 29 i 36 – Cyfyngu ar drafodion a recriwtio etc. gan awdurdodau sy'n uno*

63. Mae adrannau 29 i 36 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyfyngu ar weithgareddau penodol awdurdodau lleol sy'n uno, a rheoli'r gweithgareddau hynny. Mae'r darpariaethau hyn yn gymwys i awdurdodau sy'n uno'n wirfoddol o dan y Ddeddf, ac i uno sy'n cael effaith o ganlyniad i ddeddfwriaeth arall gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu a basiwyd ganddo (mae hyn oherwydd y diffiniad o "awdurdod sy'n uno" yn adran 2(3)(b)).